



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

ENILLYDD CYSTADLEUAETH FARDDONIAETH CYMRU EWRO 2020

Hunaniaeth

Sai'n hoffi rygbi,
nac adrodd chwedlau chwaith,
Mae'n gas gen i hen fara brith,
Sdim defaid 'da fi – mae'n waith!

Sai'n hoffi ffermio,
Does gen i'r un caur,
Yn fy mywyd welais 'rioed
Cymru yn colli un gêm faur.

Ond mae gen i iaith y nefoedd,
Iaith fy mam a fy nhaid,
Iaith sy'n bwysig i 'nghlustiau,
Iaith fy hun, iaith fy nghalon, iaith fy enaid.

Nansi Bennett

